# Datganiad Preifatrwydd Dywedwch Wrthym Unwaith

Mae’r gwasanaeth hwn yn ymrwymedig i sicrhau fod eich preifatrwydd wedi’i ddiogelu a gallwch fod yn sicr y bydd unrhyw wybodaeth a fyddwch yn ei rhoi yn cael ei defnyddio’n unol â’r Datganiad Preifatrwydd hwn. Mae'r datganiad hwn yn egluro sut y byddwn yn defnyddio a diogelu unrhyw wybodaeth a fyddwch yn ei roi i ni pan fyddwch yn defnyddio’r gwasanaeth hwn.

## Y Gwasanaeth Hwn

Mae’r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar ran y Llywodraeth. Mae’r gwasanaeth yn wasanaeth wirfoddol yr ydych wedi'i ethol i'w ddefnyddio ac yn rhoi eich caniatâd i ddefnyddio'r data a ddarperir gennych. Gellir cael hyd i’r Polisi Preifatrwydd llawn ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau ar y rhyngrwyd yn https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-work-pensions/about/personal-information-charter.

## Y Ddeddf Diogelu Data (DDD) a Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR)

Mae'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol yn ffurfio rhan o'r gyfundrefn diogelu data yn y DU, ynghyd â Deddf Diogelu Data 2018 (DDD 2018). Yr Adran Gwaith a Phensiynau yw’r Rheolwr Data ar gyfer y gwasanaeth hwn o dan y Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i ddiogelu unrhyw wybodaeth rydym yn casglu gennych chi a byddwn ond yn prosesu gwybodaeth yn unol â darpariaethau GDPR â’r Ddeddf hon.

Rydym wedi sicrhau fod y gwasanaeth hwn yn ddiogel ac yn bodloni holl safonau y llywodraeth i atal unrhyw fynediad heb awdurdod at y wybodaeth a fyddwch yn ei rhoi i ni.

## Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu?

Byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol amdanoch chi: fel eich enw, cyfeiriad ac am bobl eraill sy’n cael ei heffeithio gan y newid fel bod y sefydliadau yn gallu cymryd unrhyw gamau dilynol maent eu hangen. Byddwn ond yn gofyn i chi am wybodaeth sydd ei hangen gan y sefydliadau hynny, a byddwn ond yn trosglwyddo’r wybodaeth sydd ei hangen gan bob sefydliad.

Gofynnir i chi gytuno i rannu’r wybodaeth hon gyda sefydliadau eraill. Os ydych yn rhoi gwybodaeth ar ran rhywun arall gofynnir i chi hefyd os oes gennych eu cytundeb i wneud hynny.

Cyn i’r wybodaeth gael ei hanfon byddwch yn cael cyfle i’w gwirio a gweld pwy y bydd yn cael ei rhannu gyda. Yn ogystal, caiff y data hwn ei ddileu yn dilyn cyfnod o amser sy'n gymesur â rhoi digon o amser i'r sefydliadau gymryd rhan i fynd i'r afael â'r newid.

### Sefydliadau eraill fydd yn derbyn eich gwybodaeth

Mae gan sefydliadau fydd yn derbyn y wybodaeth rydych yn ei rhoi eu polisïau preifatrwydd eu hunain sy'n cydymffurfio â'r Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol a Deddf Hawliau Dynol 1998. Gellir cael mynediad at eu polisïau hefyd drwy'r Rhyngrwyd. Byddwn yn hapus i'ch helpu i leoli a darllen y rhain, os gofynnwch i ni.

Mae cytundebau ffurfiol hefyd mewn lle rhwng pob un o'r sefydliadau hyn ar Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r rhain yn disgrifio'n fwy manwl sut mae eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Dyma esiamplau o sefydliadau eraill all gael eu hysbysu o'r newidiadau a sut y gall y wybodaeth rydych yn ei rhoi gael ei defnyddio ganddynt:

*Ar gyfer hysbysiadau marwolaeth*

- Gall Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) ddefnyddio gwybodaeth yr ymadawedig i gau eu cofnod trwydded yrru a diweddaru eu cofnod cerbyd.
- Gall Timau Budd-dal Tai a Thimau Gostwng Treth Cyngor Awdurdodau Lleol ddefnyddio gwybodaeth yr ymadawedig i gau eu ceisiadau am fudd-dal, ac mewn rhai achosion, ystyried pwy arall efallai fyddai'n gymwys yn y cartref.

*Ar gyfer hysbysiadau geni*

- Gall Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) ddefnyddio'r wybodaeth am yr enedigaeth i brosesu ceisiadau am Gredyd Treth Gwaith a Budd-dal Plant.
- Gall Gwasanaethau Llyfrgell ddefnyddio gwybodaeth ar enedigaethau i roi gwybodaeth am wasanaethau ychwanegol sydd ar gael i blant cyn oed ysgol.

## Pethau eraill efallai byddwn yn wneud gyda'ch gwybodaeth

O dro i dro efallai byddwn, gyda'ch caniatâd, yn cysylltu â chi un ai drwy ffonio neu'n ysgrifenedig i ofyn eich barn am y gwasanaeth rydych wedi ei dderbyn.

Gall y wybodaeth rydych wedi ei rhoi i ni gael ei defnyddio ar gyfer gwybodaeth ystadegol a fydd yn ein helpu i wella'r gwasanaeth. Ni fydd y wybodaeth ystadegol yn cynnwys dim o'ch manylion personol.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer rhesymau marchnata neu'n trosglwyddo'r wybodaeth i unrhyw drydydd parti nad ydynt yn rhan benodol o'r gwasanaeth hwn.

## Mynediad at eich gwybodaeth a chysylltu â ni

Os ydych eisiau holi i ni am eich gwybodaeth, neu os oes gennych ymholiad neu gŵyn am y polisi preifatrwydd hwn, gallwch gysylltu â ni drwy trwy e-bost yn tellusonce.communications@dwp.gsi.gov.uk

## Newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn

Os bydd y polisi preifatrwydd hwn yn newid mewn unrhyw ffordd, byddwn yn diweddaru'r datganiad hwn i'w wneud yn eglur pa wybodaeth rydym yn ei chasglu, sut rydym yn ei defnyddio ac o dan ba amgylchiadau y bydd yn cael ei rhannu.